# Taflen Wybyddol AA1

## Rhan 1

**Yr Egwyddor Wirio**

Yn y 1920au a'r 1930au roedd grŵp o athronwyr yn pryderu bod rhai cwestiynau yn aros heb eu hateb ganrif ar ôl canrif, tra bod meysydd academaidd eraill wedi symud ymlaen. Roedden nhw eisiau gwybod a oedd y cwestiynau annatrys hyn heb gael eu datrys oherwydd nad oeddent yn gwestiynau gwirioneddol ystyrlon. Roedd y grŵp o athronwyr yn byw yn Fienna a daethant yn adnabyddus fel Cylch Fienna. Roedd gan y rhan fwyaf o'i aelodau gefndiroedd mewn gwyddoniaeth. Penderfynodd y grŵp bod angen prawf ar gyfer ystyrlonrwydd fel y gellid adnabod gosodiadau fel rhai ystyrlon neu rai diystyr. Dylanwadwyd arnynt nid yn unig gan wyddoniaeth (y maes a roddodd atebion ac a arweiniodd i wybodaeth gytunedig), ond hefyd gan empiriaeth (mae gwybodaeth yn seiliedig ar brofiad), a gan waith yr athronydd Ludwig Wittgenstein a ddadleuodd dros ddamcaniaeth iaith seiliedig ar luniau (yn y pen draw mae geiriau'n deillio o'n profiad synhwyraidd). Roeddent yn gytûn bod ystyr gosodiad i'w gael drwy wybod beth sy'n cael ei ddarlunio. Roedd Positifiaeth Resymegol yn fudiad a ddatblygodd o Gylch Fienna. Roeddent yn ceisio dod o hyd i'r prawf eithaf ar gyfer gosodiadau ystyrlon – yr Egwyddor Wirio. Eu casgliad oedd, er mwyn i osodiad fod yn ystyrlon roedd rhaid iddo gael ei wireddu drwy brofiadau synhwyraidd, yn ymarferol ac yn derfynol.

Sylweddolwyd yn fuan y byddai'r egwyddor hon yn dileu gosodiadau hanesyddol a deddfau cyffredinol gwyddoniaeth gan nad oedd yn bosibl arsylwi ac felly gwireddu digwyddiadau yn y gorffennol neu osodiadau sy'n berthnasol yn gyffredinol. Ond ystyriwyd bod y gosodiadau hyn yn ystyrlon, felly dyfeisiwyd ffurf wannach ar yr egwyddor – y gellid ei gwireddu mewn egwyddor yn hytrach nag mewn arfer, ac y gellid ei gwireddu o ran yr hyn sy'n debygol yn hytrach nag yn derfynol.

Fodd bynnag, roedd hyn yn dal i olygu bod yr holl siarad am Dduw yn cael ei ystyried yn hurt gan nad yw'r syniad o berson y mae ei briodoleddau hanfodol yn anempirig yn syniad dealladwy o gwbl. Dadleuent mai camddefnydd o iaith oedd tybio, oherwydd bod gair (Duw) yn bodoli rhaid bod iddo realiti cyfatebol.

## Rhan 2

**Yr Egwyddor Anwirio**

Heriodd Syr Karl Popper y fethodoleg wyddoniaeth safonol a dadleuodd ei bod yn ymwneud ag anwirio yn hytrach na gwirio. Sylweddolodd mai'r allwedd i wyddoniaeth oedd ei gallu i wybod beth fyddai'n dangos bod rhywbeth yn anwir yn hytrach na'i gallu i wirio. Ystyrir bod damcaniaethau'n wir nes bod rhyw dystiolaeth yn cyfrif yn eu herbyn. Y mwyaf aml y byddwch yn methu â dangos bod damcaniaeth yn anwir (oherwydd eich bod yn gwybod beth fyddai'n gorfod digwydd i ddangos ei bod yn anwir), y mwyaf o reswm sydd gennych

dros feddwl bod y ddamcaniaeth yn gywir. Ystyriai Popper bod yr egwyddor anwirio yn brawf i weld a oedd gosodiad yn wyddonol. Fodd bynnag, cymhwysodd yr athronydd Prydeinig, Anthony Flew, hyn at y ddadl ynglŷn ag iaith. Dadleuodd, pan mae gosodiadau crefyddol yn honni eu bod yn dweud rhywbeth am y byd – yna roeddent yn ddiystyr gan nad oedd y crediniwr crefyddol yn caniatáu i unrhyw set o amgylchiadau gyfrif yn erbyn y gosodiad.

Er enghraifft, ystyrir bod y gosodiad bod Duw yn ateb gweddi yn gyson â pha beth bynnag sy'n digwydd, gan fod y crediniwr crefyddol yn honni y gallai ateb Duw fod yn ie, na neu arhoswch. (h.y. pa beth bynnag sy'n digwydd, ystyrir bod Duw yn ateb).
Eglurodd Anthony Flew ei ddadl gan ddefnyddio dameg am arddwr anweladwy. Soniodd am ddau fforiwr sy'n darganfod llannerch debyg i ardd a wnaed gan fod dynol, ond sydd mewn ffyrdd eraill yn debyg i ffenomen naturiol. Mae un fforiwr yn sicr bod yna arddwr; mae'r llall yn anghytuno. Maen nhw'n trefnu rhoi'r rhagdybiaeth bod yna arddwr ar brawf, gan ddefnyddio ffensys, gwaetgwn ac ati. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o arddwr. Fodd bynnag, ar bob cam mae'r crediniwr yn lliniaru'r rhagdybiaeth, mae'r garddwr yn anweladwy, ni ellir ei ganfod drwy unrhyw rai o'r synhwyrau. Yn y diwedd mae'r anghrediniwr yn gofyn "Sut yn union mae'r hyn a alwch yn arddwr anweladwy, anniriaethol, bythol anniffiniol yn wahanol i arddwr dychmygol neu hyd yn oed dim garddwr o gwbl?"
Honiad Flew yw mai dyma beth sy'n digwydd i honiadau crefyddol. Ni ellir eu hanwirio ac felly maen nhw'n ddiystyr. Nid yw crefydd yn caniatáu iddi hi ei hunan gael ei phrofi'n anwir.